# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**CA(3)-06-11**

## CA537 : Rheoliadau Dwr Mwynol Naturiol, Dwr Ffynnon a Dwr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) (Diwygio) 2011

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Dwr Mwynol Naturiol, Dwr Ffynnon a Dwr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2007 (Rheoliadau 2007) ymhellach drwy:

(a) diweddaru'r cyfeiriad at Reoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2009 yn rheoliad 3(1)(a) o Reoliadau 2007; a

(b) darparu y caniateir defnyddio ieithoedd yn ychwanegol at y Saesneg ar y marc neu'r label.

### Materion technegol: Craffu

O dan Reol Sefydlog 15.2, ni wahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn.

### Rhagoriaethau: Craffu

1.O dan Reol Sefydlog 15.3(ii), gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn ar y sail "ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad."

2.Mae'r ffordd yr ymdrinnir â'r iaith Gymraeg gan ddeddfwriaeth ar y pwnc hwn wedi bod yn destun adroddiadau gwrthwynebus gan y Pwyllgor hwn a'i ragflaenydd (SLC67, SLC313 ac CA425) dair gwaith ers 2007, oherwydd mai termau Saesneg yn unig oedd angen ar rai darpariaethau arbennig. Rhoddwyd tystiolaeth ar y pwnc i'r Pwyllgor gan swyddogion ar 25 Mawrth 2010 a gan Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, ar 29 Ebrill 2010. Cytunodd y Dirprwy Weinidog i gyflwyno deddfwriaeth ychwanegol i sicrhau na fyddai unrhyw beth yn Rheoliadau 2007 (fel y'i diwygiwyd) yn rhwystro defnydd o'r Gymraeg ar labeli y cyfeirir atynt yn Rheoliadau 2007.

3.Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion yn ystod mis Awst 2010, a chafodd y broses ddrafftio ei chydlynu er mwyn i welliannau tebyg gael eu gwneud i'r ddeddfwriaeth gyfatebol yn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Bydd hyn yn sicrhau bod poteli sydd â labeli dwyieithog yn gallu cael eu gwerthu ymhob rhan o'r DU.

4.Mae'n bleser gan y Pwyllgor adrodd yn ôl i'r Cynulliad bod y mater hwn bellach wedi cael ei ddatrys yn foddhaol.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**
**Chwefror 2011**